# *Curo'n Hyderus ar y Drws Tri Enw*

YR ATHRO MERERID HOPWOOD
*Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant*

ABSTRACT

In the Monmouthshire and District National Eisteddfod, August 2016, a new consultation document was launched outlining the Welsh Government's priorities as it aims to reach the target of doubling the number of Welsh speakers to a million by 2050. In the document, education is listed as one of the key vehicles on the journey, with changing attitudes towards the Welsh language (through 'normalisation') also listed as an important engine. In a previous edition of this journal, Gwyn Lewis expressed his disappointment to find the Welsh language in *Successful Futures* nothing more than a 'subject in the curriculum – rather than a teaching and learning medium across the curriculum'. Contemplating the goal of a 'million Welsh speakers', this article considers what kind of positive changes could be initiated by adopting a more all-encompassing approach to languages, one that frees language from the constraints of a skill-centered mentality. It revisits *Successful Futures,* and examines the potential for the Welsh language as a key player beyond the 'Area of Learning and Experience: Languages, Literacy and Communication' described by Donaldson. It finds an opportunity to embrace the nation's bilingualism as an agent that can go a significant way towards attaining the core 'four purposes' of the new curriculum.

**Key words**: bilingualism, creativity, culture, curriculum, identity, language, multi/plurilingualism.

*https://doi.org/10.16922/wje.19.1.4*

## *Cyflwyniad*

Dau bwnc amhosibl eu hosgoi ar faes prifwyl llynedd oedd 'Addysg' a'r 'Iaith Gymraeg', gyda'r 'a' yn dynodi cyplysiad yn ogystal â rhestr. O'r Babell Lên i'r Lolfa Lên, o Maes D, Cymdeithasau Un a Dau i stondinau'r amrywiol brifysgolion, heb sôn am bebyll Cymdeithas yr Iaith a Dyfodol i'r Iaith doedd dim dianc rhagddynt. Dathlwyd cyfraniadau Gwenynen Gwent, Carnhuanawc a Merêd; rhyfeddwyd at y Wenhwyseg ddoe a heddiw; cofiwyd chwyldro 'anghofiedig' sefydlu ysgol; olrheiniwyd holl hanes y Gymraeg a chynhaliwyd sawl sesiwn ar sut i fynd ati i'w dysgu, o arbrofi gyda rhaglenni fel *duolinguo* i lansio cyfrol ddefnyddiol *Cyfoethogi'r Cyfathrebu* (Jones a Morris, 2016).

Briwsion yn unig yw'r rhain, digon gobeithio i roi blas o'r dorth ac i gadarnhau bod y diddordeb cenedlaethol mewn addysg fel mewn iaith mor fyw ag erioed. Ond hyd yn oed o fod wedi colli'r uchod i gyd, go brin y byddai neb wedi gallu troi clust fyddar i un o'r sloganau a atseiniodd uchaf drwy'r maes. O lwyfan y gwleidyddion, fel yr ymgyrchwyr, cryfhaodd y gri am y 'Miliwn o Siaradwyr' gyda threigl yr wythnos. Ddydd Llun, lansiodd y prif weinidog a gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ymgynghoriad y llywodraeth ar ei strategaeth i gyrraedd y nod erbyn 2050. Datganwyd chwe blaenoriaeth: cynllunio a pholisi iaith, normaleiddio, addysg, pobl, cefnogi a hawliau (Llywodraeth Cymru (LLC), 2016). Erbyn dydd Mercher roedd y drafodaeth yn parhau'n frwd a'r ffocws yn tynhau ar y drydedd flaenoriaeth: addysg, gyda chynulliad ym mhabell Prifysgol Caerdydd yn trafod syniad y 'Continwwm Iaith' a fyddai, o'i fabwysiadu, yn llywio cynnwys gwersi a dulliau asesu ac addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg fel y rhai Cymraeg. Ddydd Iau, cyhoeddwyd sylwadau Ioan Talfryn yn *Golwg*. Roedd ef, fel un o Bwyllgor Gweithredol Cymdeithas Addysg Ewrop y Rhanbarthau (CAER), yn ymateb i'r slogan gan hawlio y byddai'n rhaid wrth chwyldro yn y drefn addysgol cyn gwireddu'r nod (*Golwg,* 2016: 4–5). Ddydd Gwener, atseiniwyd yr un fath o neges yn neorfa'r syniad a rali Cymdeithas yr Iaith (gw. Miliwn o Siaradwyr, 2015).

Does fawr syndod bod addysg wedi dod gyflymed yn rhan amlyced o'r sgwrs, oherwydd os y drydedd o chwe blaenoriaeth y strategaeth ydyw, peidied neb â chamgymryd mai hon yw'r drydedd o ran pwysigrwydd. Dengys y geiriau sy'n dilyn pennawd y flaenoriaeth mor allweddol yr ystyrir hi: 'Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael addysg Gymraeg ac sydd â sgiliau Cymraeg, am mai ond drwy alluogi rhagor o



04 Hopwood WJE.indd 70 18/09/2017 13:04

bobl i ddysgu Cymraeg y bydd modd cyrraedd miliwn o siaradwyr' (LlC, 2016a: 3). At hyn, o edrych yn fanylach ar y flaenoriaeth gyntaf, 'Cynllunio a pholisi iaith', sylwn mai gydag addysg y mae'r gwaith hwn hefyd yn dechrau: 'os am gynyddu'r niferoedd ar y raddfa sydd ei hangen, y cam cyntaf angenrheidiol mewn unrhyw strategaeth fydd yn creu cyflenwad digonol o athrawon i addysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg' (LlC, 2016a: 3).

Doedd neb, ar ddolydd Y Fenni o leiaf, i'w glywed yn gwrthwynebu'r uchelgais na chwaith y syniad mai addysg fyddai prif gerbyd y daith, ac roedd cryn gefnogaeth hefyd i'r ail gerbyd yn y rhes: agwedd. Er mwyn cyrraedd y 'miliwn' byddai'n rhaid addysgu pobl, ond byddai'n rhaid hefyd newid agwedd pobl, meddai sawl llais, gan gynnwys Gareth Pierce, prif weithredwr CBAC, a Lona Evans pennaeth y Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Caerdydd (stondin Prifysgol Caerdydd, 3 Awst 2016). Roedd cymeradwyaeth frwd y pafiliwn i Ian Gwyn Hughes ac Osian Roberts o'r Gymdeithas Bêl Droed bnawn Mercher yn dangos gwerthfawrogiad y genedl o'r modd y gellid, drwy weithredoedd bach ond arwyddocaol, newid agwedd y byd tuag at iaith, ac yn bwysicach, newid agwedd yn nes adref. (Gyferbyn â sylwadau Ioan Talfryn yn *Golwg* gweler erthygl 'Ewro 2016, – hwb "amhrisiadwy" i'r iaith' sy'n manylu ar hyn.)

Yn sŵn y cyffro, ymddengys felly na fydd y 'dyfodol yn llwyddiannus' oni chyrhaeddir y 'miliwn' o siaradwyr; ac yn wyneb hyn, ddeunaw mis wedi cyhoeddi *Dyfodol Llwyddiannus,* adolygiad annibynnol y cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson (Donaldson, 2015), dyma fanteisio ar gyfle i ail-dafoli'r arweiniad sydd ynddo o ran y Gymraeg.[1] Yn yr erthygl hon ystyrir pa gyfleoedd sydd yng nghanllawiau'r cwricwlwm newydd i newid agweddau tuag at iaith, a holi pa fath o addysgeg fyddai'n addas ei mabwysiadu wrth guro ar y drws-tri-enw a geir ynddo: 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' (Donaldson, 2015: 48). Bydd y drafodaeth yn codi'r cwestiwn sut y gallai ymagwedd fwy cwmpasog tuag at iaith, un sy'n mynd tu hwnt i ddehongli iaith fel 'sgìl' neu fel pe bai'n 'ddim mwy na phwnc' (Lewis, 2016: 121–2), helpu'r cwricwlwm gyrraedd y 'pedwar diben' y mae'n amcanu tuag atynt (Donaldson, 2015: 29–30). Cyffyrddir hefyd yn yr angen i fathu termau newydd er mwyn adlewyrchu'n well y modd y mae'r iaith yn perthyn i holl drigolion Cymru, ac wrth fynd heibio awgrymir ambell faes ymchwil pellach.

Ar yr olwg symlaf, gellir dweud bod deg o'r wyth a thrigain o argymhellion yn *Dyfodol Llwyddiannus* yn ymwneud yn benodol â'r



04 Hopwood WJE.indd 71 18/09/2017 13:04

Gymraeg. Yn gydnaws â'r ddogfen ar ei hyd, mae'r rhain yn pwysleisio gwerth yr iaith fel 'ffordd o gyfathrebu' ac fel 'cymhwysedd rhyngweithredol' a 'gweithredol'. Ond yna, o edrych ar deitl triphlyg y Maes: 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' (Donaldson, 2015: 48), gwelwn fod Donaldson yn cydnabod potensial aml-haenog cyfraniad iaith i addysg, â'r tri gair yn amlygu bod ein consérn ni yng Nghymru yn ymwneud â mwy nag un iaith, bod y maes yn fwy na llythrennedd ac yn fwy hefyd na chyfathrebu. O ddychwelyd at y deg argymhelliad hefyd, gwelir yn y pedwerydd, er dechrau drwy bwysleisio gwerth 'masnachol' yr iaith, gydnabyddiaeth fod y stori'n ddyfnach na hynny:

> Dylai'r gwerth y mae plant a phobl ifanc, athrawon, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd yn ei roi ar y Gymraeg gael ei hyrwyddo drwy ganolbwyntio'n fwy ar ei gwerth masnachol yn y farchnad swyddi, y manteision gwybyddol o ddwyieithrwydd sydd wedi'u hawgrymu a'i phwysigrwydd o ran galluogi plant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth dda o fywyd diwylliannol Cymru yn y gorffennol a'r presennol. (Donaldson, 2015: 60)

Yn fuan synhwyrwn fod yr adolygiad yn gwahodd iaith i ddianc o lyffethair cysyniadau iwtilitaraidd fel 'sgìl' a 'nwydd', ond heb efallai sylweddoli'n llawn pa ddylanwad neu 'ardrawiad' (o ddefnyddio term mwy cydnaws o ddramatig) y gallai'r Gymraeg ei gael ar ddibenion allweddol y cwricwlwm, yn benodol o ran meithrin disgyblion hyderus, egwyddorion dinasyddiaeth fyd-eang a chreadigrwydd, yn ogystal â hybu plethiad trawsgwricwlaidd y ddarpariaeth.

Mewn trosolwg o'i adolygiad ei hun yn rhifyn cyndiwethaf y cylchgrawn hwn, mae'r hyn a ddywed Donaldson am y Gymraeg yn ddadlennol. Mae'n amlygu'r argymhelliad i wneud y Gymraeg yn iaith 'weithredol' gan bwysleisio natur 'ryngweithredol' iaith, ond nodwch hefyd sut y mae'n cyplysu 'iaith' a 'diwylliant' bron yn ddidaro: 'The report also makes a number of recommendations about Welsh language and culture. In particular, it recommends treating Welsh as a functional language with a much stronger focus on its transactional nature in the life of the school and the classroom' (Donaldson, 2016: 13). Edrychwn wedyn ar y cyfeiriad at y Gymraeg yn yr adran 'Goblygiadau' tua diwedd *Dyfodol Llwyddiannus*. Yma eto nodir yr ansoddair 'gweithredol', wrth ddweud y bydd plant yn 'datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg at safon weithredol o leiaf'; ond o ddarllen y frawddeg ar ei hyd, gwelwn drachefn sut y gosodir 'iaith a diwylliant' ochr yn ochr â'i gilydd, er bod y cyswllt fymryn yn fwy llac y tro hwn: 'byddant yn ymdrin â diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm



04 Hopwood WJE.indd 72 18/09/2017 13:04

ac yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg at safon weithredol o leiaf' (Donaldson, 2015: 90).

Os yw Carwyn Jones, y prif weinidog, yn ddiamwys ei farn o ran y cysylltiad rhwng iaith a hunaniaeth fel y gwelwn pan ddywed: 'Mae'r Gymraeg wrth galon ein hunaniaeth fodern' (LlC, 2014), mae ymdriniaeth Donaldson o'r ddeubeth yn fwy cynnil. Yn adran agoriadol yr adolygiad, gwelir 'y Gymraeg' a 'hunaniaeth Cymru' yn yr un frawddeg er nad yr un cymal, lle nodir bod 'y Gymraeg a dwyieithrwydd …, a'r ffocws ar hunaniaeth Cymru a'r Cwricwlwm Cymreig', yn cael eu hystyried ymhlith y 'pethau gorau' am addysg yng Nghymru' (LlC, 2014: 15). Mae'r ddau gyfeiriad nesaf at 'hunaniaeth' yn ymddangos heb gyswllt uniongyrchol â'r iaith: yn gyntaf, wrth grynhoi themâu'r 'pedwar diben', nodir bod angen 'i'n plant a phobl ifanc gael eu gwreiddio yn eu diwylliannau eu hunain a bod â hunaniaeth gryf [*sic*] fel dinasyddion Cymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r byd ehangach' (LlC, 2014: 28); ac yna, wrth sôn ymhellach am y nod o greu 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus', pwysleisir y cydblethu rhwng y lleol a'r byd-eang (ond heb gyfeiriad at iaith) gan nodi'r angen i alluogi disgyblion 'i ddeall eu hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain yn ogystal â hunaniaeth ddiwylliannol cymdeithasau mewn lleoedd a chyfnodau eraill, ac i drafod materion cymhleth ac anodd' (LlC, 2014: 44). Ond yna, tua hanner ffordd drwy'r ddogfen a chyda'r cyfeiriad olaf at 'hunaniaeth', clywir Donaldson yn datgan bod cysylltiad pendant rhwng 'hunaniaeth' a 'iaith', wrth gydnabod bod: 'dadlau mawr a brwd ynghylch y ffactorau sy'n ffurfio ac yn cadw hunaniaeth ddiwylliannol', ond yn nodi ar yr un pryd y 'derbynnir yn gyffredinol fod iaith o bwysigrwydd hanfodol yn y broses honno' (LlC, 2014: 58).

Cyfeirio a wna'r 'dadlau mawr a brwd' at y corff sylweddol o waith ymchwil sy'n dadansoddi perthynas hunaniaeth/diwylliant/iaith. Mae'r maes yn aml-ddisgyblaethog, gyda seicolegwyr, athronwyr, gwyddonwyr, niwrolegwyr, haneswyr, cymdeithasegwyr, llenorion, gwleidyddion, ieithegwyr ac addysgwyr oll yn cyfrannu o'u doethineb. (Yn hyn o beth, mae'n faes sy'n gwahodd ymdriniaethau mwy creadigol o bosib nag sy'n arferol mewn ymchwil academaidd, gyda mwy nag un 'gorwel cymharol' yn ymagor wrth glosio at y pwnc. Gweler gwaith Susan Samata y cyfeirir ato isod.) Ond waeth beth yw'r dadlau na'r cyrchddull, mae'n ddiddorol nodi bod y cyfundrefnau addysg a gyfrifir yn flaengar, er enghraifft, Ffindir a Seland Newydd, yn ymwybodol o fanteision cysylltu'r elfennau. Noda fersiwn 2007 o gwricwlwm Seland Newydd ei fod yn cyflwyno 'Ieithoedd' fel maes dysgu newydd, yn benodol er mwyn annog myfyrwyr



04 Hopwood WJE.indd 73 18/09/2017 13:04

i gymryd rhan weithredol yng nghymdeithas amlddiwylliannol y wlad fel yn y gymuned fyd-eang (Seland Newydd, 2007: 4).[2]

Yn y gwledydd hynny, fel yn ein gwlad ni, mae mwy nag un iaith yn hawlio eu lle, a'r ieithoedd yn mwynhau gwahanol raddfeydd o gryfder a statws. Yng Nghymru, fel sy'n hysbys i'r darllenydd, ceir dwy iaith gyfath o ran statws swyddogol: y naill wedi ei gwreiddio yn y wlad ers rhyw bymtheg canrif a mwy, ond a siaredir bellach gan gwta 20 cant o'r boblogaeth, a'r llall sydd wedi bod yn rhan o fywyd swyddogol y wlad ers rhyw bum can mlynedd ac sydd wedi tyfu dros gyfnod cymharol fyr o ryw gant a hanner o flynyddoedd i ddod yn brif iaith 80 y cant o'r boblogaeth. Gyda'r sefyllfa hon felly, mae'r 'dadlau mawr' hyd yn oed yn fwy brwd, â'r cwestiwn sydd wedi bod ar flaen meddwl nifer o Gymry ers dyddiau J. R. Jones, O. M. Edwards, Arglwyddes Llanofer, Thomas Price Carnhuanawc a mintai o'u blaenau, yn parhau'n llawn mor ddilys heddiw ag erioed: beth yw'r berthynas rhwng hunaniaeth pobl ac iaith nad ydynt yn ei siarad?

Cyfrol ddiweddar sydd wedi craffu ar hyn yw *The Cultural Memory of Language* gan Susan Samata (2014). Man cychwyn ei hymchwil oedd sylw gan un a adwaenir yn y testun fel 'Habeeba', a ddywedodd: 'I don't even speak my own language' (Samata, 2014: 157). Mae Habeeba fel y pedwar o gyfwelyddion Samata naill ai wedi ymfudo i neu eu magu mewn gwlad wahanol i fro enedigol eu hach, a heb fod yn siarad iaith gyntaf eu rhieni. Mae rhywbeth gogleisiol o drist yn natganiad Habeeba, ac mae Samata'n achub ar y cyfle i'w osod yng nghyd-destun datganiad enwog Derrida: 'Je n'ai qu'une langue, ce n'est pas la mienne' (Nid oes gennyf ond un iaith, ac nid fy un i yw honno) (1996: 13). Yn natganiad Habeeba fel Derrida, awgrymir bod lliwiau iaith yn ddyfnach tipyn na'r du a'r gwyn a welir wrth ystyried iaith fel cyfrwng i drefnu geiriau'n gywir, hynny yw, iaith fel 'llythrennedd'; awgrymir hefyd bod ei lliwiau'n ddyfnach na'r enfys a welir wrth ystyried iaith fel pont sy'n caniatáu i ni ddefnyddio geiriau yn gyswllt rhwng pobl a'i gilydd, hynny yw, iaith fel 'cyfathrebu'. Mae'r datganiadau, yn y modd y maen nhw'n cyfeirio at iaith fel rhywbeth a allasai fod yn eiddo personol, yn datgelu rhywbeth am gymhlethdod y cyswllt rhwng iaith a'r syniad gwaelodol o'r hunan, ac er mor wahanol yw'r ddau ddatganiad, awgryma'r naill fel y llall rywbeth am effeithiau posib medru/methu un neu fwy o ieithoedd ar ein dirnadaeth ohonom ni ein hunain.

Nid yw hwn yn gysyniad newydd, ac mae sawl gwythïen sy'n werth ei chloddio wrth ddilyn y meddyliau hyn.[3] Am y tro, fodd bynnag, ar drywydd rôl y Gymraeg yn *Dyfodol Llwyddiannus* bodlonwn ar gydio yng nghynffon dau linyn yn unig (sef y ddau a deflir atom gan Donaldson wrth



04 Hopwood WJE.indd 74 18/09/2017 13:04

iddo led-gysylltu iaith â diwylliant ac â hunaniaeth). Gan ystyried sut y mae'r iaith a siaredir yn effeithio ar deithi'r meddwl, gallwn brocio'r awgrym bod rhannu iaith â chymuned o siaradwyr gyfystyr â rhannu agweddau arwyddocaol o'r un diwylliant ac, ymhellach, yr un hunaniaeth. Bydd rhaid ystyried y cwestiynau hyn o safbwynt y Cymry 'Cymraeg' a'r honedig 'di-Gymraeg'.

Mae syniadau o'r math wedi cynhyrfu'r dyfroedd ers meitin, gyda Derrida yn sôn am 'drigo' mewn iaith: '*demeurer*' (e.e. 1996: 13) a datganiad Wittengstein ymhlith yr enwocaf: 'Die Grenzen meiner Sprache bedeuten die Grenzen meiner Welt' (Ffiniau fy iaith yw ffiniau fy myd) (1922: 5.6), a cheir cyflwyniad ardderchog i'r maes ym mhennod gyntaf *Hawl i'r Gymraeg* (Lewis, 2008). Ond does dim angen edrych ymhellach na ffocws ein hymchwil i gael syniad o sut y mae dwy iaith yn gallu cynnig dau set gwahanol o ffiniau. O ddarllen arolwg Donaldson yn Saesneg, *Successful Futures,* gyda'r teitl yn y lluosog cyflyrir y meddwl i ddehongli pennaf nod y cwricwlwm fel un sy'n darparu dyfodol llwyddiannus unigol, personol i bob disgybl ysgol. O ddarllen y ddogfen yn Gymraeg fodd bynnag, gan fod 'dyfodol' yn ymwrthod â'r lluosog, cyflyrir y meddwl gan y teitl i ddehongli'r bwriad fel un tra gwahanol. Y tro yma, ceir y syniad mai anelu at ddyfodol ar y cyd, llwyddiant cenedl-gyfan efallai, yw'r amcan. Un enghraifft yw hon ymhlith miloedd o'r modd y mae cystrawen, geirfa ac ymadrodd ieithoedd gwahanol yn mynnu dehongliadau gwahanol o rywbeth sydd ar yr olwg gyntaf yr un peth. Mae Gwyneth Lewis yn crisialu'r sefyllfa'n gywrain yn ei cherdd 'What's in a name', pan ddywed: '*Lleian wen* is not the same as "smew"/ … Because it's another point of view' (2003:14), ac mae 'Dau lygad ar un wlad' Myrddin ap Dafydd yn mynd i'r un cyfeiriad (2003: 18).

Heibio i deitlau dogfennau swyddogol a barddoniaeth mae enghreifftiau digonol yn ein hiaith feunyddiol yn ategu'r pwynt. Ystyriwch y gwahaniaeth yn y modd y gallwn ddirnad perthynas ag eiddo yn y Gymraeg drwy ddweud 'Mae *A* gen i' o'i gymharu â'r Saesneg, 'I have an *A*'. Nid yw'r Gymraeg yn cynnig y posibiliad i ni fod yn weithredwyr darostyngedig i ferf debyg i 'to have', ac o gyfieithu'r Gymraeg i'r Saesneg gwelwn mai'r hyn a ddywed yw 'there is an *A* with me'. Yn yr un modd, mae'r Gymraeg yn mynegi perthynas wahanol rhwng yr hunan ac 'ofn' neu 'eisiau' gyda'r ymadrodd 'mae ofn/eisiau arnaf i' o'i gymharu â'r Saesneg sy'n tueddu at yr 'I'm afraid' neu 'I want'. Mae rhywbeth dadlennol hefyd yn y modd y mae'r Gymraeg yn 'gwrando ar', yn 'siarad â' ac yn 'clywed arogl', tra bod y Saesneg yn 'listen to', 'talk to' ac yn sicr ddim yn 'hear a smell'. A phe



04 Hopwood WJE.indd 75 18/09/2017 13:04

byddai gofod yn caniatáu, gellid rhestru wnifeintiach o esiamplau a hynny fel astudiaeth gymharol rhwng pob math o ieithoedd â'i gilydd, nid dim ond y Saesneg a'r Gymraeg.

Mae perthnasedd y syniadau uchod i nod yr erthygl hon yn driphlyg. Yn y lle cyntaf, maen nhw'n amlygu iaith fel rhywbeth y tu hwnt i 'sgìl' ar y lefel 'weithredol' a'i gweld yn chwarae rôl 'ffurfiannol' (o fenthyg ieithwedd J. R. Jones, 1967). Yn ail, eto o ddeall iaith fel rhywbeth mwy na 'sgìl', mae'r syniadau'n awgrymu y bydd angen mabwysiadau addysgeg fwy eangfrydig wrth gyflwyno iaith. Yn drydydd, maen nhw'n dechrau datgelu beth yw'r berthynas bosib rhwng amlieithrwydd a chreadigrwydd. Trown felly i ystyried y tair agwedd hon ar 'iaith y tu hwnt i sgìl'.

### *Iaith y tu hwnt i sgìl: y potensial ffurfiannol; codi hyder drwy gadarnhau hunaniaeth ar y cyd*

Ystyriwn y rôl ffurfiannol yn gyntaf. Dyma rôl sy'n deillio o berthynas iaith â hunaniaeth, perthynas sydd yn ei thro yn deillio o briodweddau iaith fel drych sy'n effeithio ar y modd y mae ei siaradwyr yn dirnad y byd o'u cwmpas fel yr awgrymwyd uchod.[4] Os yw'r ddirnadaeth hon yn gyffredin i siaradwyr iaith, yna, yn anorfod, mae hi'n rhan o hunaniaeth nid yn unig pob siaradwr unigol yr iaith honno ond hefyd hunaniaeth gyffredin y siaradwyr-ar-y-cyd, y math o hunaniaeth sy'n cadarnhau synnwyr o berthyn, ac yn hynny o beth, sy'n codi hyder. (Ceir dadleuon cadarn o blaid y cyswllt hunaniaeth/perthyn/ hyder gan ymchwilwyr rhy niferus i'w nodi, bodlonwn ar gyfeirio at erthygl Douglas Bourn, cyfarwyddwr y Ganolfan Datblygu Ymchwil Addysg, yn *Policy & Practice: A Development Education Review,* 2008, fel esiampl.[5]) Gyda'r gair 'hyder' yn ymddangos bron drigain gwaith yn adolygiad Donaldson, ac yn benodol yn y pedwerydd diben, dyma ddechrau gweld potensial y Gymraeg fel asiant allweddol i gyflawni amcanion y cwricwlwm tu hwnt i'w maes ei hunan megis. Yn yr un modd, wrth feddwl am sut yr ymhelaetha Donaldson ar yr ail ddiben (creu dinasyddion 'egwyddorol, gwybodus'), gan esbonio mai bod yn wybodus 'am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol' yw'r nod, gallwn ddechrau gweld potensial y Gymraeg fel asiant i'r diben hwn hefyd. A dylid nodi ei bod hi'n asiant nid ar y gwastad plwyfol yn unig, ond o fanteisio arni fel un iaith o ddwy (o leiaf) a'r posibiliadau i gymharu a ddaw o hyn, mae'n asiant ar wastad amlhaenog y byd mawr crwn.



04 Hopwood WJE.indd 76 18/09/2017 13:04

Beth felly yw posibiliadau hyn a'r effaith ar ddisgyblion a elwir yn 'Gymry di-Gymraeg'? Mae'r cwestiwn yn dal yr ymchwilydd mewn gwagle rhyfedd, heb fod yn gallu defnyddio'r fethodoleg sy'n benodol iaith-seiliedig oherwydd gwrthrych yr astudiaeth mewn gwirionedd yw diffyg neu absenoldeb iaith (Samata, 2014: 107). Dychwelwn at strategaeth ddrafft y llywodraeth sy'n agor drwy ddatgan bod yr iaith Gymraeg yn 'rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl, ac yn rhan annatod o'n bywydau bob dydd' (LlC, 2016a). Y peth diddorol fan hyn yw bod 'pobl' yn cynnwys pawb, nid dim ond y Cymry Cymraeg, fel y daw'n amlwg wrth ddarllen fersiwn Saesneg y ddogfen: 'The Welsh Language … is part of that which defines us as a people, and an integral part of our everyday lives.' Gyda'r geiriau 'annatod'/'integral' synhwyrwn amgyffrediad Gerallt Lloyd Owen o iaith, a'i gwêl hi fel 'ias' 'yn y pridd' neu fel 'grym anniddig ar y mynyddoedd' (1972: 9); ac os oes eco o syniad J. R. Jones am 'gydymdreiddiad iaith a thir' (1967) yn llechu yma, mae'n gyffrous sylweddoli bod gweithredu i gyrraedd miliwn o siaradwyr, yn weithred sy'n ateb cwestiwn J. R. Jones 'A raid i'r iaith ein gwahanu?' (1967) gydag un 'na!' gorfoleddus.[6]

Ond sut all iaith fod yn feunyddiol glwm wrth fywydau pobl na fyddent yn ystyried eu hunain fel rhai sy'n ei siarad? Does dim rhaid edrych ymhell i ganfod llun ar ateb. Ar lefel arwynebol, mae'n bresennol o'n cwmpas i gyd ar arwyddion ffyrdd a dogfennaeth swyddogol. Mae ar y darnau punt a estynnir wrth ddal y peint â'i label 'Llaeth Cymru', ac mae yno eto uwch y rhes 'Deg Eitem neu Lai' wrth ddisgwyl talu. Efallai bydd pwt o sgwrs cymdogion Cymraeg eu hiaith yn cyrraedd ffenest agored, neu air fel 'bach' yn llithro o dafod Saesneg ei hiaith wrth ddotio at faban mewn pram. A hi'n bnawn Sadwrn, efallai bydd angen canu'r anthem cyn gêm, neu os yw hi'n fin nos, efallai bydd modd cwrdd â hi wrth hwylio drwy ddewislen y sianeli teledu, neu glywed y dyn tywydd yn dymuno 'nos da' siriol cyn clwydo. Tocenisitiaeth o iaith ymylol? Efallai, ond ni ddylid tanbrisio'r un o'r 'mân' bethau hyn. Dyma'r math o 'little experiences' chwedl Stephens (2016) sy'n creu ymdeimlad o 'ni' ac o 'hunaniaeth genedlaethol', ac i raddau mae modd mesur dyfnder yr ymdeimlad o berthyn drwy ystyried maint corpws y pethau sy'n gyffredin 'ddi-nod' i grŵp o bobl. (Cyflwynir 'di-nod' yma fel addasiad bwriadol o'r term 'unmarked' a ddefnyddir gan e.e. Ellis, 2006: 177.) Mae'n anodd pennu'n union effaith yr 'iaith-yn-y-cefndir' hon, ond onid ymwybyddiaeth o'i heffaith gadarnhaol oedd y tu ôl i gyflwyno Cymraeg Achlysurol, polisi sydd o'i osod fel rhan o strategaeth ehangach yn gallu bod yn fuddiol (LlC, 2013: 41). Tu hwnt i gadarnhau'r hunaniaeth-ar-y-cyd, mae gan bytiau a



04 Hopwood WJE.indd 77 18/09/2017 13:04

glywir ac a welir bron ar ddamwain ran i'w chwarae ym mhroses caffael iaith hefyd. Mae ymchwilwyr wedi hen bwyso a mesur goblygiadau'r 'sŵn gwyn' ieithyddol (gweler e.e. gyflwyniad hwyliog-hygyrch Patricia Kuhl, 2010); ond heb na ffurflen foeseg na labordy, digon hawdd clywed effaith synau cefndirol y cyfnod cynnar yn natblygiad plant ar eu gallu i ynganu seiniau fel oedolion wrth sylweddoli bod y Cymry a glywodd y Gymraeg er eu plentyndod, hyd yn oed os nad ydynt yn galw eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, yn ddieithriad bron yn medru ynganu 'll' heb yr anhawster sy'n wynebu'r ieithwyr mwyaf dysgedig a ddaw at y sain am y tro cyntaf fel oedolion.

Drwy'r ystyriaethau gweledol/clywedol hyn, gwelwn yn fuan label mor annigonol yw 'Cymry di-Gymraeg'. Gan ei bod hi bron yn amhosib trigo yng Nghymru heb ddod i ryw fath o gyswllt â'r Gymraeg, mae lle i ddadlau unwaith eto nad oes y fath beth â 'Chymry *cwbl* ddi-Gymraeg' o leiaf. Ond tu hwnt i'r 'sŵn gwyn', mae rhai wedi dadlau hefyd fod y Gymraeg yn effeithio ar ffordd o feddwl hyd yn oed y rheiny nad ydynt yn ei siarad (ar lefel weithredol), ond sydd dan ei dylanwad ar lefel ffurfiannol am eu bod yn trigo mewn cymdeithas a diwylliant a ffurfiwyd ganddi. Dyma yw awgrym ramantus-ddadleuol O. M. Edwards (ac ergyd Samata hefyd). Wedi esbonio sut y deilliodd y Cymry o gyfuniad o bobl gan gynnwys yr Iberiad a'r Celt, cais esbonio pam mai fel Celtiaid y disgrifir y Cymry bron yn ddieithriad:

> Y rheswm am hyn ydyw mai iaith Geltaidd ydyw'r Gymraeg. Collodd yr Iberiad ei iaith, a dysgodd iaith ei orchfygwr, ond nid hwyrach heb newid peth ar yr iaith honno. Gall Cymru golli ei hiaith lawer gwaith eto, ond erys neilltuolion meddwl y bobl o hyd. A newidir pob iaith ddysgant hyd nes y bo'n alluog i osod allan neilltuolion meddwl y bobl hynny. Erys rhyw adlais o iaith goll yr Iberiad, ac o iaith y Celt, ymhen oesoedd rif y gwlith, ymysg preswylwyr y mynyddoedd hyn. Nid mewn geiriau wyf yn feddwl, ond mewn arddull, -yn null ffurfio brawddeg, yn nhroiadau meddwl (Edwards, 1911: 23).

Waeth pa mor ddadleuol yr ymddengys y math hwn o honiad heddiw, ni ellir gwadu dilysrwydd y cwestiwn: pa gategori o iaith yw'r Gymraeg i'r mwyafrif llethol o bobl Cymru felly? A buan y sylweddolir bod y derminoleg gyfredol yn annigonol at ein dibenion ni. Ymhlith y labeli Saesneg a welir amlaf ceir 'first language', 'second language', 'X as an additional language', 'mother tongue', 'parental language', ac yn fwy diweddar 'heritage language'. Yn sgil datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n hen hysbys i ni peth mor amwys yw label fel 'iaith gyntaf', gyda phlant a ddysgodd *yn gyntaf* iaith wahanol i'r Gymraeg (Saesneg gan amlaf)



04 Hopwood WJE.indd 78 18/09/2017 13:04

yn sefyll arholiadau Cymraeg 'iaith gyntaf'. Ochr arall yr un geiniog, ac yn sgil cymhlethdod y system categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng ieithyddol, ceir hefyd blant a ddysgodd y Gymraeg *yn gyntaf* yn sefyll arholiad Cymraeg 'ail iaith', a phlant sydd wedi dod at y Gymraeg *yn gyntaf* yn sefyll yr union un arholiad Saesneg â phob plentyn arall.

Mae'r system addysg yng Nghymru hefyd wedi esgor ar grwpiau o siaradwyr y gellid honni eu bod ar yr olwg gyntaf yn drysu ymhellach gategorïau sydd eisoes yn ddadleuol, yn benodol categoriau yn amlach pyramid Cummins. Drwy glywed geirfa 'Cymraeg academaidd' na 'Chymraeg-bob-dydd', mae ganddynt yn ymddangosiadol well gafael ar 'Hyfedredd Iaith Academaidd Wybyddol' nag ar 'Sgiliau Cyfathrebu Rhyngbersonol Sylfaenol' (Cummins, 1984). Gallant esbonio mewn Cymraeg digon ystwyth effaith ymbelydredd ar yr amgylchfyd, ond Cymraeg mwy herciog sydd ganddynt i drefnu cwrdd â'u ffrindiau ar ôl ysgol.

Yn ychwanegol at y cyd-destun addysgol sy'n creu amwysedd ynghylch y termau hyn, mae'r newidiadau cymdeithasol o ran patrymau magu plant yn newid addasrwydd y term 'mamiaith'. Ond prif broblem y term 'ail iaith' yng Nghymru bellach yw ei fod wedi dod yn gyfystyr ag iaith 'ail-ddosbarth'. Digwyddodd hyn, ymddengys, wrth i ni lithro o'r syniad cwbl briodol o ddod at y Gymraeg *'fel'* ail iaith, a cholli'r 'fel' gan greu dosbarth newydd o iaith – 'Cymraeg ail iaith' – sydd wedi ei gysylltu'n uniongyrchol gyda'r cyrsiau ail iaith cyfredol a'u holl gymhlethdodau (LlC, 2013).

Rydym yn brin o derm yng Nghymru. Gallasai'r label 'etifedd-iaith' ei gwneud hi, ond y peryg wedyn yw y byddai hwnnw'n cael ei drosi i 'heritage language' sydd bron yn ddieithriad yn cyfeirio at iaith yr achau (rhieni o leiaf) a hynny ar leferydd siaradwyr nad ydynt bellach yn byw ar dir yr achau. Mae angen term cymwys i ddisgrifio perthynas holl drigolion Cymru gyda'r Gymraeg fel y Saesneg. Beth am 'hawl-iaith'?[7] Onid oes gan *holl* drigolion Cymru'r *hawl* i siarad a defnyddio dwy iaith swyddogol gwlad eu cartref, a *hawl* i elwa ar fanteision dwyieithrwydd, nid dim ond cwta 20 y cant ohonynt? Ac os oes ganddynt yr *hawl,* onid oes lle ganddynt i fynnu'r *hawl* honno? Ac o fynnu'r *hawl* i siarad iaith rhaid felly fynnu'r *gallu* i'w siarad, h.y. mynnu system sy'n ddigon effeithiol i'w throsglwyddo iddynt. Addysgeg effeithiol fyddai'r system honno.



04 Hopwood WJE.indd 79 18/09/2017 13:04

*Iaith y tu hwnt i sgìl: potensial addysgeg newydd*

Trown felly at yr ail bwynt sy'n deillio o ystyried iaith tu hwnt i sgìl, a'r cwestiwn am addysgeg. Ar drothwy'r drws-tri-enw, gwelwn fod Donaldson yn ein gwahodd i feddwl o'r newydd am ffyrdd o gyflwyno ieithoedd sy'n manteisio i'r eithaf ar eu gwerth addysgol, a da o beth, oherwydd mewn gwlad â dwy iaith swyddogol, ac anghyfartaledd dybryd ar raddfa 19:81 o ran y rhai sy'n manteisio ar y ddwy, mae mawr angen. Mae'r Cyngor Prydeinig (2016) ac Estyn (2016) wedi cyhoeddi adroddiadau diweddar sy'n gweld gwendidau yn y modd yr ymdrinnir ag Ieithoedd Tramor Modern (ITM) yn ein hysgolion, ond mae lle i'w darllen yng nghyd-destun y ddwy iaith gysefin hefyd.

Awgrymwyd eisoes y gellid deall 'Llythrennedd' fel gwyddor trefnu geiriau'n gywir. O ran 'Cyfathrebu', er cwmpasu elfennau eraill, yn ddiddadl mae iaith yn ganolog iddo. Bydd ar ddisgyblion angen profiad cyflwyno, sgwrsio, llythyra a llenydda, ac mewn oes sy'n dibynnu fwyfwy ar glipiau clywedol i gyfathrebu, gallwn ragweld y gair llafar yn adennill ei le, ac mai'r cyfathrebwyr mwyaf llwyddiannus fydd y rhai all lunio ymadroddion cofiadwy ag ystum a llais yn gymaint ag ysgrifbin mewn llaw. (Dyma gyfle i ni ail-asesu lle gwrando yn ein cwricwlwm. Fel 'mam' siarad, ysgrifennu a darllen, mae'n elfen allweddol ym mhroses cyfathrebu llwyddiannus.[8])

Ond beth am yr enw cyntaf ar y drws: 'Ieithoedd'? Yn y lluosog, mynna fod y sawl sy'n curo ar y drws yn paratoi i gofleidio amlieithrwydd. Golyga hyn, yn un peth, ddod â gwahanol ieithoedd at ei gilydd o fewn ein hysgolion. Nid dyma'r drefn gyfredol ar y cyfan. Yn amlach na pheidio, mae'r adrannau Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Tramor Modern yn endidau ar wahân, ac er bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi galw am weithio trawsbynciol, o ran iaith ar y lefel 'cywirdeb' y gwelir hyn yn digwydd yn gyffredinol. Wrth agor y drws hwn mae Donaldson yn awgrymu chwyldro, a chyfle gwerthfawr i gyflwyno ieithoedd (dwy o leiaf, os nad tair neu bedair) yn gyfochrog. Drwy wneud hyn, gellid amlygu iaith fel gwyddor a system resymegol o batrymau sydd wedi eu datblygu dros ganrifoedd er mwyn hwyluso dealltwriaeth rhwng pobl a'i gilydd. Gallwn gyflwyno ieithoedd mewn modd cymharol er mwyn ystyried beth mae'r gymhariaeth yn ei ddweud am berthynas pobl â'i gilydd ar draws y byd, ac er mwyn mwynhau profi'r geiriau sy'n gyffredin rhwng iaith ac iaith ynghyd â'r rhai sy'n gwbl unigryw i un iaith arbennig. Gallwn brofi ieithoedd fel cerddoriaeth a chlywed eu rhythmau a'u



04 Hopwood WJE.indd 80 18/09/2017 13:04

melodïau. Gallwn drin ieithoedd fel cyfle i werthfawrogi hanes pobloedd drwy ddilyn eu datblygiad, twf a thranc. Gallwn newid agweddau a dangos i ddisgyblion mai mater o nofio rhwng un iaith a'r nesaf yw dysgu iaith newydd ac nid dringo ffens ddur, ac yn gwbl allweddol yng Nghymru, gallwn ddangos, o'r cychwyn cyntaf, mai taith gydol-oes yw dysgu unrhyw iaith, a bod *holl* ddisgyblion Cymru, fel y rhan fwyaf o drigolion y byd, ar 'Daith Dwyieithrwydd'.

Mater allweddol i addysgwyr y dyfodol fydd cyfleu'r pwynt olaf hwn os ydym am feithrin agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. Yn fyd-eang, amlieithrwydd yw realiti'r mwyafrif. Ac er mor rhyfeddol, ymddengys fod angen parhau i argyhoeddi'n gilydd mai manteision ac nid anfanteision a ddaw gyda hyn. Ceir prawf o'r angen hwn wrth weld fod Christina Schelletter o Brifysgol Hertfordshire mor ddiweddar â Mehefin y llynedd yng nghynhadledd ryngwladol Prifysgol Bangor wedi codi'r cwestiwn : 'Does bilingual education affect L1 development?' (Bangor, 2016: 46), heb sôn am y safbwyntiau a ddarlledwyd ar Ddydd Santes Dwynen bum mis cyn hynny yn *Welsh or English? Lucy Owen's Big School Dilemma* (2016) a'r trydar a ddilynodd ar *#DespiteBeingTaughtInWelsh*. A gwae neb rhag dyrchafu pŵer perswâd arbrofion rhesymegol arbenigwyr fel Ellen Bialystok a Jürgen Meisel a'u tebyg uwch dadleuon emosiynol cawr rygbi fel Jamie Roberts (*Welsh or English? Lucy Owen's Big School Dilemma,* 2016).

Doed a ddêl, byddai addysgeg sy'n edrych ar iaith yn gwmpasog fel yr awgrymir uchod, yn mynd ymhell tu hwnt i'r deg argymhelliad 'Cymraeg-penodol' yn *Dyfodol Llwyddiannus* ac yn cynnig ffyrdd o gyflawni nifer o agweddau'r pedwar diben. Dau ysgolhaig sy'n dadlau'n bwerus dros fanteision datblygu addysgeg o'r fath (h.y. un sy'n ystyried iaith fel rhywbeth amgenach na chasgliad o sgiliau) yw Alison Phipps a Glenn S. Levine. Mewn rhifyn pwerus o'r cyfnodolyn *Critical and Intercultural Theory and Language Pedagogy* (2012), maen nhw'n galw am edrych o'r newydd ar resymau moesegol addysgu iaith, gan gwestiynu dilysrwydd y dulliau cyfredol sy'n ffrwyth damcaniaethau rhesymoliaeth bositifistaidd a modernaidd. Maen nhw'n dadlau'n rymus bod y damcaniaethau hyn wedi ymdreiddio addysgeg iaith i'r fath raddau nes nad ydym bellach yn eu hadnabod fel theorïau. Deisyfant weld rhyddhau'r dosbarth iaith o'i gwasgod theoretig â'i gwnïad tynn o ddefnyddiau fel 'gweithred' a 'ffwythiant', gan fynnu bod addysgeg sy'n deillio o weld popeth yn nhermau nwyddau a masnach, sgìl a chymhwyster, wedi methu'n llwyr â chreu cymdeithas ddiogel a bodlon. Fe'u temptir i annog athrawon iaith i ddychwelyd at Foucault, Bourdieu a Kristeva, ond buan y gwelant mai



04 Hopwood WJE.indd 81 18/09/2017 13:04

canlyniad hynny fyddai disodli un set o theorïau gydag un arall. Pen draw eu dadl yw gwahodd athrawon iaith i gymryd saib ac i greu gofod lle gall yr hen syniadau ddod i gwrdd â rhai newydd a sgwrsio â'i gilydd (Phipps a Levine, 2012: 3). Rydym ni, athrawon iaith Cymru, yn y saib hwnnw nawr, ond ar drothwy'r drws-tri-enw rhaid peidio oedi gormod.

Eu cynnig nhw ar gyfer y cyfarfod syniadau hwn yw dod â'r hen '5 C': 'communication', 'cultures', 'comparisons', 'connections' a 'communities' at '5 C' newydd: 'context', 'complexity', 'capacity', 'compassion', 'conflict' (Phipps a Levine, 2012: 8–13). Yn sicr gallem ninnau hefyd wahodd: 'cyd-destun', 'cymhlethdod', 'cydymdeimlad', a beth am ychwanegu 'creadigrwydd' ac wrth gwrs 'Cymru' i lywio ein sgwrs adeiladol? Ond am y tro, nid trefnu rhestr y gwahoddedigion sy'n bwysig yn gymaint â'r sgwrs ei hunan, ac mae'n dda meddwl bod y Cynulliad wrthi'n hwyluso'r union beth ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad i gyd. Yn y broses hon *prysurwn* i gofleidio iaith yn ei holl ehangder, ac ymagweddu ein haddysgeg at un amlieithog. Dyma'r 'multilingual turn' y mae Gabriela Meier o Brifysgol Exeter, yn synhwyro sydd yn y gwynt:

> What we do as language teachers in our classrooms depends to a large extent on how we understand language, learners and learning. A recent shift towards bilingual, multilingual or plurilingual understandings of language learning has given momentum to the idea of the multilingual turn in languages education. (Bangor, 2016: 45)

Mewn gwlad â dwy iaith swyddogol ac mewn cyfnod trawsnewidiol o ran addysg ac iaith, buasai hi'n gam â'n disgyblion i'w gadael ar ôl heb fanteisio ar y troad hwn.

I gyd-fynd ag addysgeg iaith o'r fath bydd rhaid dychmygu patrwm newydd, ac addasu trefniant ac amserlen ysgol. Er mwyn rhyddhau'r gwersi iaith-benodol i fod yn gyfleoedd i drafod gwyddor iaith (ei gramadeg, ei geirfa, ei phatrymau, ei cherddoriaeth a'i hanes) bydd angen sicrhau bod cyfle iddi ddod yn iaith 'weithredol' drwy fod yn gyfrwng rhyngweithredol mewn gwersi eraill. Ac os yw hi'n rhyfeddod bod angen dal ati i argyhoeddi pobl o fanteision amlieithrwydd, nid yw hi'n llai o ryfeddod bod angen pwysleisio eto fyth fanteision dysgu iaith trwy ei hintegreiddio â chynnwys a thrwy drochi. Tra bod Emyr Davies yn llygad ei le pan ddywed 'nad oes y fath beth ag un dull perffaith [o ddysgu iaith i oedolion]' (Jones a Morris, 2016: 1), prin fod lle i amau manteision cynyddu ymwneud y dysgwyr â'r iaith gymaint â phosib. Drwy gyfnodau dwys o drochi a thrwy gyflwyno elfennau o'r cwricwlwm yn Gymraeg (y gweithgareddau cyrsiol ac



04 Hopwood WJE.indd 82 18/09/2017 13:04

allgyrsiol fel ei gilydd), gellid sicrhau bod disgyblion yr ysgolion 'cyfrwng Saesneg' yn mwynhau mynediad effeithiol i'w dwy 'hawl-iaith'.

Roedd hi'n amlwg o gynhadledd ddiweddar yr Association for Language Learning (ALL) ym Mhrifysgol Westminster bod ysgolion blaengar Llundain yn cofleidio'r dull hwn (ALL, 2016), ac mae'r dystiolaeth o Wlad y Basg yn profi bod cyfuniad o drochi ac integreiddio pynciol yn cynhyrchu siaradwyr tairieithog hyderus erbyn 15 oed (Ikastola, 2016). Mae'r un math o negeseuon yn yr adolygiadau ITM y cyfeiriwyd atynt uchod, ac mae'n dda gweld bod prosiectau fel, er enghraifft, 'Llythrennedd Amlieithog' consortiwm ERW eisoes yn braenaru'r tir (ERW, 2016).

Gyda phwyslais Donaldson ar y 'trawsgwricwlaidd' a'i arweiniad ar batrymau asesu (Donaldson, 2015: 73–85), datblygiad naturiol fyddai mabwysiadu dull integreiddio ieithoedd. Gyda'r trefniadau amserlennu yn eu lle, a'r arolygaeth fel y corff arholi'n cefnogi'r shifft, gellid cyflwyno'r continwwm ieithyddol y mae galw amdano. A chyn cloi'r adran hon, cofiwn mai argymhellion ar gyfer y daith o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 sy'n *Dyfodol Llwyddiannus*. Rhaid i'r ieithoedd fod yn rhan o'r daith o'r cychwyn. Dylid cofio hefyd, er y brwdfrydedd, y gwnaed pwyntiau tebyg bron i 90 mlynedd yn ôl mewn adroddiad a'i deitl yn rhagfynegi'r Meysydd Dysg a Phrofiad, sef *Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd,* ond na thalwyd sylw i'r cyngor: 'Ni cheir fawr o fudd yn ymdrin â chyflwr presennol yr iaith a'i rhagolygon yn y dyfodol, nid yn unig yn y gyfundrefn addysg ond hefyd ym mywyd y genedl, oni ddeellir yn glir fod y cyfan yn dibynnu ar yr Ysgol Elfennol (1927: 178–9).

### *Iaith y tu hwnt i sgìl: y potensial creadigol*

Os yw deall iaith mewn ffordd ehangach yn arwain at addysgeg sy'n caniatáu i ddisgyblion godi eu hyder a magu byd-olwg egwyddorol, gall hefyd annog dysgwyr 'creadigol' a chyrchu elfen arall o'r pedwar diben. Un o nodweddion pennaf creadigrwydd yw medru gweld pethau mewn ffyrdd newydd. Cawsom ein hatgoffa'n gynharach sut y mae iaith yn arwain (os nad yn cyflyru) y meddwl, a sut y mae dwy iaith yn gallu arwain y meddwl ar hyd dau drywydd gwahanol. O annog ein disgyblion i fod yn fwy effro i'r posibiliadau hyn, mae lle i gredu y gellid esgor ar fwy o greadigrwydd. Mae digon o dystiolaeth ym myd llenyddiaeth i ddangos sut y mae awduron yn defnyddio eu dwyieithrwydd fel sbardun i fynegiant creadigol. Onid dyma ddatgela Jack Kerouak wrth esbonio sut y mae'n trin Saesneg: 'I



04 Hopwood WJE.indd 83 18/09/2017 13:04

refashion it to fit French images' (Samata, 2014: 82) ac mae'r modd y cymhathodd Dylan Thomas y Gymraeg yn ei Saesneg a chreu newydd-deb mynegiant yn hen stori. Ond nid pau'r llenorion yn unig yw meddwl creadigol, mae ei angen ar bawb sy'n torri tir newydd, boed yn wyddonwyr neu'n ddyniaethwyr, yn ddyfeiswyr neu'n weinyddwyr.

O ddod â dwy neu fwy o ieithoedd at ei gilydd ac amlygu'r gorgyffwrdd a'r gwrthdaro rhyngddynt gan ddatblygu sgiliau gwybyddol a metawybyddol, gellid hyfforddi'r meddwl beirniadol-creadigol, ac mae galw am ymchwil pellach yn ysgolion Cymru yn hyn o beth.[9] Gellid mabwysiadu 'trydydd lle' Said a Kramsh a'u tebyg a'i ail-lunio fel 'Y Lle i'r Dychymyg Cymreig Dwyieithog', gan ysbrydoli cenhedlaeth o benseiri'r dychymyg i greu o fewn cyd-destun newydd, sef gofod llawn lliw a'r man lle mae mwy nag un iaith yn cwrdd ym meddwl Cymreig yr unfed ganrif ar hugain. Ac yn hyn o beth, daw hi'n amlwg ein bod yn brin o derm arall, oherwydd i'r siaradwyr dwyieithog, onid oes gan iaith un elfen graidd ychwanegol at y pedair arferol? Hwnt i wrando, siarad, darllen ac ysgrifennu, onid yw sgìl ffrwythlon 'croes-ieithu' yn rhan greiddiol o brofiad ieithyddol y cyd-destun amlieithog?[10]

Wrth dynnu tua terfyn ein trafodaeth, mae'n briodol dychwelyd at strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru a sbardunodd y cyffro yn yr eisteddfod. Yn y crynodeb gweithredol, nodwn y frawddeg hon: 'Mae'r iaith Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl, ac yn rhan annatod o'n bywydau bob dydd' (LlC, 2016a: 3). Rydym eisoes wedi ystyried goblygiadau'r ail gymal, beth felly am y cyntaf? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ystyried iaith fel 'trysor' mwy na 'sgìl'? Mae'n drosiad cyfarwydd i ni yng Nghymru, ac ar begwn cadarnhaol yr un llinach â'r hen wraig sy'n 'dal i gerdded mlaen' yng nghanu Tecwyn Ifan (1977) a 'merch perygl' Waldo Williams (1957: 100). Fe'i defnyddir gan Gwyneth Lewis yn 'A Promising Breakthrough': 'You're right, I don't remember the egg/before it was broken … /I felt/it was me who was broken because all my care/couldn't save my treasure.' Mae'r gerdd yn gorffen:

> 'Egg doesn't always mean preciousness.
> It was still an egg when it was mess.'
> 'Oh God. Don't tell me. A lifetime's sense of loss
> Based on mistranslation?' 'That's entirely poss.' (Lewis, 2003: 35)

Yn ei dadansoddiad o berthynas ei phedwar cyfwelydd ag iaith gyntaf (goll) eu rhieni, mae Samata yn cofnodi sbectrwm o themâu sy'n codi o'u



04 Hopwood WJE.indd 84 18/09/2017 13:04

hymatebion. Ar y naill ben mae 'inauthenticity/imposture', 'ambivalence', 'blame/resentment', teimladau sy'n perthyn i'r 'sense of loss' y cyfeirir ato uchod; ond yna, tuag at y pen arall, mae'n cofnodi 'change over time' cyn cyrraedd 'feelings of participation'. Dyma lle mae 'addysg' yn cwrdd ag 'agwedd', oherwydd gall addysg fod yn gerbyd i droi colled a theimladau negyddol yn ennill cadarnhaol. Fel y gwelsom, mae cyfleoedd i gyflawni hyn yn *Dyfodol Llwyddiannus* drwy integreiddio iaith drwyddi-draw. Os oedd D. J. Williams yn lladd ar Ddeddf Addysg 1870 gan ddweud 'nid Deddf Addysg mo honi i Gymru eithr Peiriant Mwrdro Cenedl' (Williams, 1929: 20), ac yn galaru am y modd y 'caewyd y Gymraeg allan yn hir o bob lle yng nghyfundrefn addysg y genedl' (1929: 21), gallasai'r cwricwlwm newydd weithio i'r gwrthwyneb, oherwydd mae ynddo gyfle i roi'r Gymraeg yng nghanol y gyfundrefn, nid yn unig fel sgìl neu gyfrwng rhyngweithredol ond fel asiant codi hyder, cadarnhau hunaniaeth ac ennyn dealltwriaeth o'r byd.

I gyflawni hyn, bydd rhaid wrth fuddsoddiad sylweddol yn hyfforddiant athrawon, a thu hwnt i'r ysgol bydd angen parhau i weithio i gynnwys pawb ar 'daith dwyieithrwydd', gan berswadio'r rhai sy' prin yn ymglywed â'r 'sŵn gwyn' i aros ar y bws, a'r rhai sy'n gyrru'r bws i fod yn wrandawyr adeiladol ac yn anogwyr i'w cyd-deithwyr. Bydd rhaid hefyd rhoi'r droed ar y sbardun. Mae erthygl Lewis (2016) yn ein hatgoffa o'r llu polisïau, er enghraifft, G*ymru'n Un, Iaith Pawb, Bwrw mlaen, Un iaith i bawb* i'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.* Bu digon o drafod. Cyrraedd y nod amdani nawr a gweld cynnydd cyn canlyniadau'r cyfrifiad nesaf!

Drwy ymdrin ag iaith y tu hwnt i theorïau positifistiaeth, hwnt i'r ffwythiannol a'i bwyslais ar sgìl, a hwnt i dermau rhesymoli modernaidd a'u hymgais i droi gwersi'n dwmffat i sianelu egni disgyblion ac athrawon tuag at farchnad waith y dyfodol (marchnad y cydnabyddir yn gwbl agored, fel pe bai hynny'n bluen yn ein het, na ŵyr neb na lliw na llun ei stondinau), gwelwn fod posibiliadau newydd, cynhwysol yn ymagor o'n blaenau, yn eu plith, ffyrdd adeiladol o gadarnhau hunaniaeth a hyder. Drwy ystyried iaith fel grym cyfannol, fel cyfrwng cydymdeimlad ac fel ffenest i ddirnad y byd mawr, gellir rhoi ar waith 'gylch gobaith'. Cylch yw hwn sy'n cychwyn ar echel hunaniaeth gadarnhaol, ac sydd yn ei dro'n codi hyder, magu uchelgais, esgor ar greadigrwydd ac ennyn egwyddorion dinasyddiaeth gynhwysol, fyd-eang, a thrwy'r cwbl, cylch sy'n beiriant llwyddiant ar gyfer un dyfodol cenedlaethol a sawl dyfodol personol.

Ar ddiwedd ei adroddiad mae Donaldson yn rhybuddio ysgolion y bydd rhaid i'w trefniadau atebolrwydd wynebu'r cwestiwn hwn: 'I ba raddau y



04 Hopwood WJE.indd 85 18/09/2017 13:04

mae'r ysgol yn datblygu ei holl blant a phobl ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn unigolion mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus i Gymru a'r byd; ac yn unigolion iach, hyderus?' (Donaldson, 2015: 101). Gobeithio bod yr erthygl hon yn dangos sut y bydd yr ateb yn dibynnu'n fawr ar y graddau a'r modd y mae'r ysgol wedi rhoi sylw i'r ddwy iaith y mae gan eu disgyblion hawl arnynt, a pha mor hyderus mae'n barod i guro ar y drws-tri-enw.

Dychwelwn i'r Fenni i gloi ein trafodaeth ac englyn Mae'n un sy'n cynnig gobaith tîm ymryson Caernarfon.

> Ar y maes ers oriau maith, fe glywaf
> y glewion difamiaith
> yn llu'n llefaru fy iaith,
> mae'n haul ym Mynwy eilwaith.
> (Hywyn, 2016)

## *Cyfeirnodau*


ap Dafydd, M. (2003). *Clawdd Cam.* Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch.

Association for Language Learning (ALL) (2016). *MFL Conference. The way forward for languages: CLIL (Content and Language Integrated Learning*), Prifysgol Westminster, Llundain. Gwelir yn: *http://www.all-languages.org.uk/event/network-languages-london-mfl-conference/* (cyrchwyd 25 Mehefin, 2016).

Bangor (2016). *Llyfryn Crynodebau Cynhadledd Ryngwladol ar Ddwyieithrwydd mewn Addysg.* Prifysgol Bangor. Gwelir yn: *http://bilingualism-in-education.bangor.ac.uk/index.php.cy* (cyrchwyd 19 Awst 2016).

Barn (2008). *http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=75:hawl-ir-gymraeg&Itemid=280* (cyrchwyd 19 Awst 2016).

Bourn, D. (2008). 'Young people, identity and living in a global society'. *Policy & Practice: A Development Education Review,* 7, hydref, 48–61.

CAER (2016). *Donaldson a'n Dyfodol Dwyieithog.* Caerfyrddin: Peniarth.

Cummins, J. (1984). *Bilingualism and Special Education: Issues in Assessment and Pedagogy.* Clevedon: Multilingual Matters.

Cyngor Gwynedd (2015). *https://twitter.com/siarteriaith/status/573166538905280514* (cyrchwyd 14 Awst 2016).

Cyngor Prydeinig (2016). *Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2015/6: Cyflwr dysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru.* Gwelir yn: *https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/tueddiadau_iaith_cymru_2016.pdf* (cyrchwyd 19 Awst 2016).

Derrida, J. (1996). *Le monolinguisme de l'autre, ou, La prothèse d'origine.* Paris: Galilée.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.




04 Hopwood WJE.indd 86 18/09/2017 13:04

Donaldson, G. (2016). 'A Systematic Approach to Curriculum Reform in Wales'. *Cylchgrawn Addysg Cymru,* 18 (1), 7–20.

Edwards, O. (1911). *Hanes Cymru i ysgolion, cyfarfodydd llenyddol, a theuluodd. Rhan 1.* Caernarfon: Swyddfa Cymru.

Ellis, E. (2006). 'Monolingualism: The unmarked case', *Estudios de Sociolingüística* 7 (2), 173–96.

ERW (2016). *Llythrennedd Triphlyg.* Gwelir yn: *http://hwb.wales.gov.uk/* (cyrchwyd 19 Awst 2016).

Estyn (2016). *Modern Foreign Languages,* Gorffennaf 2016. Caerdydd: Crown Copyright.

Ffindir (2003). *National Core Curriculum for Upper Secondary Schools.* Finnish National Board of Education (D.S. cyfieithiad heb ei awdurdodi). Gwelir yn: *http://www.oph.fi/download/47678_core_curricula_upper_secondary_education.pdf* (cyrchwyd 14 Awst 2016).

Ffindir (2014). *National Core Curriculum for Prepartory Education for General Upper Secondary Education.* Finnish National Board of Education (D.S. cyfieithiad heb ei awdurdodi). Gwelir yn: *http://www.oph.fi/download/158820_national_core_curriculum_for_preparatory_education_for_general_upper_second.pdf* (cyrchwyd 14 Awst 2016).

*Golwg* (2016). 'Miliwn o siaradwyr – "amhosib" heb ddileu addysg uniaith Saesneg'. 28, 47, 4 Awst.

Gross, J. (2013). *Time to Talk: Implementing outstanding practice in speech, language and communication.* Llundain : Nasen.

Hywyn, J. (2016). Tîm Ymryson Caernarfon, *Mwy o'r Babell Lên.* Cwmni Da: S4C, (ail-ddarlledwyd 23 Awst 2016).

Ifan, T. (1977). *Y Dref Wen.* Llanddwrog: Recordiau Sain.

Ikastola (2016). *http://www.ikastola.eus* (cyrchwyd 19 Awst 2016).

Jones, C., a Morris, S. (goln) (2016). *Cyfoethogi'r Cyfathrebu, Llawlyfr Ymarferol i Diwtoriaid Cymraeg i Oedolion.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Jones, J. R. (1967). *'A raid i'r iaith ein gwahanu?'.* Aberystwyth: Undeb Cymru Fydd.

Kuhl, P. (2010). *https://www.ted.com/talks/patricia_kuhl_the_linguistic_genius_of_babies?language=en* (cyrchwyd 16 Awst 2016).

Lewis, G. (2003). *Keeping Mum.* Northumberland: Bloodaxe.

Lewis, G. (2008). *Hawl i'r Gymraeg.* Talybont: Y Lolfa.

Lewis, G. (2016). '"Byw yng Nghymru: dysgu yn Gymraeg?" Addysg Gymraeg ddoe, heddiw ac yfory'. *Cylchgrawn Addysg Cymru,* 18 (1), 111–30.

Llywodraeth Cymru (2013). *Un iaith i bawb; adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, adroddiad ac argymhellion.* Gwelir yn: *http://gov.wales/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-cy.pdf* (cyrchwyd 14 Awst 2016).

Llywodraeth Cymru (2014). *Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen.* Gwelir yn: *http://gov.wales/topics/welshlanguage/policy/living/moving-forward/?lang=cy* (cyrchwyd 19 Awst 2016).

Llywodraeth Cymru (2015). *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes.* Gwelir yn: *http://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-w.pdf* (cyrchwyd 9 Awst 2016).

Llywodraeth Cymru (2016). *Gweledigaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg.* Gwelir yn: *http://gov.wales/newsroom/welshlanguage/2016/160801cymraeg/?lang=cy* (cyrchwyd 9 Awst 2016).

Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori (2016a). *Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.* Rhif: WG28987. Gwelir yn: *http://gov.wales/docs/dcells/consultation/160729-consultation-doc-cy.pdf* (cyrchwyd 9 Awst 2016).

*Miliwn o Siaradwyr* (2015). *http://cymdeithas.cymru/miliwn* (cyrchwyd 19 Awst 2016).

Owen, G. (1972). *Cerddi'r Cywilydd.* Caernarfon: Gwasg Gwynedd.

Phipps, A., a Levine, G. S. (2012). 'What is Language Pedagogy For?', yn *Critical and Intercultural Theory and Language Pedagogy.* Boston: Heinle.

Samata, S. (2014). *The Cultural Memory of Language,* Contemporary Applied Linguistics Volume 5. Llundain: Bloomsbury Academic.

Seland Newydd (2007). *http://nzcurriculum.tki.org.nz/The-New-Zealand-Curriculum* (cyrchwyd 19 Awst 2016).

Stephens, A. C. (2016). *From National Moods to Political Affects: Notes from the Event of Baroness Margaret Thatcher's Funeral* (Drafft dan adolygiad).

*Welsh or English? Lucy Owen's Big School Dilemma* (2016). *How Wales Works,* BBC Wales (darlledwyd 25 Ionawr 2016) (gweler #DespiteBeingTaughtInWelsh).

Williams, D. J. (1929). *A.E. a Chymru.* Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth.

Williams, W. (1957). *Dail Pren.* Llandysul: Gwasg Gomer.

Wittgenstein, L. (1922). *Logisch-Philosophische Abhandlung (Tractatus logico-philosophicus).* Fersiwn ar-lein: *http://tractatus-online.appspot.com/Tractatus/jonathan/D.html* (cyrchwyd 9 Awst 2016).

*Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd: Adroddiad y pwyllgor adrannol ar y Gymraeg yng nghyfundrefn addysg Cymru* (1927). Llundain: HMSO.

## *Nodiadau*

1 Wrth i'r erthygl hon fynd i'r wasg, noder bod CAER ar fin cyhoeddi dogfen *Donaldson a'n Dyfodol Dwyieithog* (2016) sydd hefyd yn craffu ar y cyfleoedd a'r heriau o ran y Gymraeg yn *Dyfodol Llwyddiannus.*

2 Yn yr un modd dywed fersiwn 2003 o gwricwlwm y Ffindir y dylid selio'r cyfan ar hanes diwylliannol y wlad a'i osod mewn cyd-destun etifeddiaeth ddiwylliannol Nordig ac Ewropeaidd, gan addysgu myfyrwyr i'w thrysori, asesu ac adnewyddu wrth hybu cyd-ddealltwriaeth ryngwladol (Ffindir, 2003: 12), ond noder mai tasg ddiddorol yw cymharu fersiwn 2003 gyda 2014.



04 Hopwood WJE.indd 88 18/09/2017 13:04

[3] Nid wyf yn ymwybodol e.e. o ymchwil uniongyrchol i'r gwahaniaeth cysyniadol a gyfyd wrth symud o drafod yr 'hunan' i'r 'goddrychol', neu yn Saesneg o'r 'self' i'r 'subjective' mewn siaradwyr dwyieithog, oherwydd gyda'r shifft at y 'goddrychol'/'subjective' mae rhywun yn ymglywed yr hunan yn cael ei ddarostwng i ddiffiniad sy'n deillio o'i ymwneud fel gweithredwr berf, yn ddeiliad y ferf os mynnir, yn bod felly dim ond yng nghyd-destun gweithred, ond tybed beth yw'r effaith ar yr hunan dwyieithog o fod yn ddarostyngedig i ddau fynegiant posib ond gwahanol o'r un weithred.

[4] Yn gysylltiedig â'r un ddadl, mae'r berthynas rhwng iaith a chof, ond rhaid derbyn bod hynny tu hwnt i gwmpawd yr erthygl hon.

[5] Eto, diddorol yw nodi mor anweledig yw rhan yr ieithoedd lleiafrifol yn y math hwn o drafodaeth ar aml-ddiwylliannedd Prydain.

[6] O weithio tuag at gyrraedd y 'miliwn', mae lle i fathu label ansoddeiriol newydd i'r iaith, rhywbeth tebyg i 'neilltuol cynhwysol': h.y. bod yr iaith, os yw hi'n ein diffinio ni fel 'pobl', o raid felly yn cynnig rhywbeth 'neilltuol' i ni, ac eto ei bod hi, drwy gyrraedd at fwy a mwy o siaradwyr, yn amcanu 'cynnwys' holl bobl Cymru dan ei hadain. Bwriedir ymhelaethu ar y syniadau hyn mewn trafodaeth arall.

[7] Noder y drafodaeth ddifyr rhwng Gwion Lews a Dyfrig Jones ar dudalenau arlein *Barn* (2008) yn dilyn cyhoedi'r llyfr *Hawl i'r Gymraeg* (Lewis, 2008).

[8] Fel mae ymchwil Jean Gross (2013: 3) yn amlygu mae manteision mewn ailystyried tueddiad addysgol i dreulio mwy o amser ar ysgrifennu na darllen na siarad na gwrando a throi'r drefn ar ei phen.

[9] Mae gwaith cychwynnol ar brosiect ysgrifennu creadigol dwyieithog yn y cynradd yn awgrymu bod hwn yn faes sy'n werth ymchwilio iddo.

[10] Mae'r term 'trawsieithu' a 'rhyngieithu' wedi eu hosgoi'n fwriadol oherwydd y duedd ddiweddar i gymhlethu rhyngddynt.